



Prisiad y Cynllun Pensiwn Athrawon

Mae gwybodaeth yn cylchdroi o fewn y system addysg gan ysgolion, awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau academaïau am brisiad y Cynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer Cymru a Lloegr wedi cael ei brisio dros dro gan Adran Actiwari Llywodraeth y DU i asesu ei werth tybiannol ar 31 Mawrth 2016.

Mae'n brisiad dros dro am ei fod wedi'i weithredu o dan Gyfarwyddiadau drafft a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi ar gyfer y broses brisio.

Mae'r Cyfarwyddiadau drafft yn atebol i ymgynghoriad a gaeodd ar ddiwedd mis Medi ac, mewn theori, gallai newid.

Y pwysicaf o'r Cyfarwyddiadau a ddefnyddir gan y Trysorlys yn y broses brisio yw rhagdybiaeth Cyfradd Disgownt SCAPE. Mae hwn yn penderfynu faint mae cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus heb eu cyllido'n tyfu yn eu gwerth. Mae'r Trysorlys wedi gostwng Cyfradd y Disgownt i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) + 2.4%.

Mae'r gostyngiad yng Nghyfradd y Disgownt wedi cynyddu'r diffyg yn y Cynllun Pensiwn Athrawon ac, o dan y broses gyfredol o rannu costau, bydd cost hyn wedi'i dalu gan y cyflogwyr, a fydd yn gweld eu cyfraniadau i bensiynau'n cynyddu o 7.2% rhwng 1 Medi 2019 a 31 Mawrth 2023.

Mae'n deg bod cyflogwyr yn talu'r gost yma am nad yw'r diffyg yn y Cynllun Pensiwn Athrawon wedi digwydd oherwydd y cynnydd yng nghostau'r buddion i'r gweithwyr. Yn wir, mae costau'r buddion pensiwn i'r gweithwyr wedi disgyn yn is na'r rheiny a fwriadwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod y pedair blynedd diwethaf am nad yw athrawon yn byw mor hir ag yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i ragweld yn y gorffennol ac nid yw enillion gwirioneddol athrawon wedi cadw'n gydradd â'r gyfradd chwyddiant.

Yn dilyn pwysau gan NASUWT, mae Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi cytuno i ariannu costau'r cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwyr i ysgolion ac ymddiriedolaethau academaïau o 1 Medi 2019 hyd 31 Mawrth 2023. Bydd yr Adran Addysg yn ymgynghori ar y dull o wneud hyn yn ddiweddarach eleni.

Mae NASUWT wedi dweud yn glir wrth y Trysorlys bod yn rhaid cyllido effaith y toriad yng Nghyfradd y Disgownt yn llawn a bod toriadau yn y gwariant ar addysg sy'n codi o'r newid yma ym mholisi'r Trysorlys yn annerbyniol.

Y pwyntiau allweddol i'w cofio:

- Nid yw'r newid yng Nghyfradd y Disgownt yn cael unrhyw effaith ar gyllidebau ysgolion, awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau academaïau hyd 1 Medi 2019. **Nid yw'r codiad cyflog i athrawon ar gyfer 2018/19, gan gynnwys y grant ar gyfer cyflogau athrawon, wedi ei effeithio gan brisiad y Cynllun Pensiwn Athrawon.**

Parhad drosodd

- Mae NASUWT wedi dweud yn glir wrth yr Adran Addysg y dylai'r holl leoliadau addysgol a gyllidir gan y wladwriaeth, gan gynnwys colegau chweched dosbarth, dderbyn cyllido ar gyfer y cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwyr i bensiynau o 1 Medi 2019 ymlaen.
- Mae NASUWT yn gweithio gyda Chyngres yr Undebau Llafur (TUC) i sefydlu safbwynt lobiö cyffredin i'r undebau i gyd ar y cyllido y mae'n rhaid i'r system addysg yn y Deyrnas Unedig ei dderbyn o ganlyniad i'r Adolygiad Cynhwysfawr nesaf o Wariant. Mae TUC yn derbyn bod yn rhaid i hyn ystyried y cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwyr i bensiynau'r Cynllun Pensiwn Athrawon a pholisi'r Adran Addysg ynglŷn â chyllido hwn.

Os oes Cynrychiolwyr NASUWT sy'n pryderu am ymateb eu cyflogwr i brisiad y Cynllun Pensiwn Athrawon, dylent anfon e-bost at CPC@mail.nasuwt.org.uk.

Aelodaeth AM DDIM

DEWCH I YMUNO Â NASUWT  **CYMRU** **HEDDIW**
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

aelodaeth am ddim am y flwyddyn gyntaf

o'r dyddiad yr ymunwch â ni*

Ar-lein ar
www.nasuwt.org.uk
neu ar y ffôn ar
03330 145550



Ydych chi'n aelod yn barod?

Bydd pob aelod sy'n gwahodd athrawon eraill yn llwyddiannus i ymuno â nhw yn NASUWT yn derbyn tocynnau rhodd Love2shop hael.

Y cwbl sydd ei angen yw rhoi eich enw a'ch rhif aelodaeth iddynt i'w nodi pan fyddent yn ymuno.

*Bydd aelodau newydd sy'n ymuno â NASUWT yn cael y flwyddyn gyntaf am ddim pan ddewisant dalu eu tanysgrifiad drwy ddebyd uniongyrchol yn y dyfodol.

GWAHODDWCH FFRIND I YMUNO Â NI

slaradwch
â ni

029 2054 6080

E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

Hydref 2018